CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2007 Rhif 14

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

# Cyfarwyddiadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *20 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 23, 24, 140(6), 203(10) a 204(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

## RHAN 1

## Cyffredinol

### Cymhwyso, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority).

(**1**) 2006 p.42. Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf at y term "Welsh Ministers" i gael eu heffaith tan ddiwedd y "cyfnod cychwynol", o fewn ystyr y term hwnnw yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988 (p.38), yn rhinwedd adran 5 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43) a pharagraff 10 o Atodlen 3 iddi. Mae'r Ysgrifenydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddiadau ar wahân i'r Awdurdod o ran Lloegr.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2007.

(4) Yn y Cyfarwyddiadau hyn —

ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority);

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r deuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "Cynllun Budd-daliadau Anaf y GIG" ("*NHS Injury Benefits Scheme*") yw unrhyw gynllun sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer budd-daliadau i staff iechyd mewn perthynas ag anaf neu glefyd ac a sefydlwyd yn unol ag adran 10 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972(**1**), ond heb gynnwys unrhyw gynllun sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu pensiwn, lwfans neu arian rhodd mewn perthynas ag afiechyd;

ystyr "Cynllun Pensiwn y GIG" ("*NHS Pension Scheme*") yw unrhyw gynllun sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pensiynau, lwfansau, arian rhodd neu iawndal am ymddeoliad cynamserol i weithwyr iechyd ac a sefydlwyd yn unol ag adran 10 neu adran 24 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, ond heb gynnwys Cynllun Budd-daliadau Anaf y GIG;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**);

ystyr "cytundeb gwasanaethau deintyddol personol" ("*personal dental services agreement*") yw cytundeb a wnaed o dan adran 64 o'r Ddeddf i ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ac

ystyr "gwasanaethau deintyddol sylfaenol perthnasol" ("*relevant primary dental services*") yw gwasanaethau a ddarperir o dan —

(i) adran 56(2) o'r Ddeddf;

(ii) contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol; neu

(iii) cytundeb gwasanaethau deintyddol personol.

---

(**1**) 1972 p.11.

(**2**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn syth ar ôl diwedd y cyfnod cychwynol o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

# RHAN 2

## Swyddogaethau'r Awdurdod

### Cyfrifon

**2.**—(1) Rhaid i'r Awdurdod baratoi a chadw cyfrifon blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o incwm a gwariant a llifau arian yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol, ac o gyflwr pethau fel y maent ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

(2) Rhaid paratoi'r cyfrifon yn unol â'r canlynol, ac eithrio pan fo cytundeb â'r Cynulliad nad oes rhaid gwneud hynny, ac os felly rhaid datgelu'r eithriad yn y nodiadau i'r cyfrifon, —

(a) Llawlyfr Awdurdod Iechyd Arbennig yr Adran Iechyd ar gyfer Cyfrifon(**1**); a

(b) unrhyw geisiadau eraill a wneir gan y Cynulliad.

### Archwilio

**3.** Rhaid i'r Awdurdod sefydlu cyfundrefn archwilio fewnol sydd yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru(**2**).

### Adroddiadau Blynyddol

**4.** Rhaid i'r Awdurdod baratoi Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â'i weithgareddau ac anfon copi o'i Adroddiad i'r Cynulliad erbyn 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

### Trafodion tir

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) i (5) o'r paragraff hwn, caiff yr Awdurdod arfer pwerau'r Cynulliad o dan adran 159(1) i (3) o'r Ddeddf (caffael, defnyddio a chynnal a chadw eiddo), i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i'w alluogi i sicrhau a chynnal a chadw mannau o'r fath ag sy'n angenrheidiol iddo i gyflawni ei swyddogaethau'n briodol.

(2) Nid yw'r pwerau a grybwyllir yn is-baragraff (1) o'r paragraff hwn yn cynnwys pŵer y Cynulliad i gaffael tir yn orfodol.

(3) Rhaid i'r Awdurdod beidio ag —

---

(**1**) Mae'r ddogfen hon wedi'i hymgorffori yn llawlyfr Cyllid y GIG ac mae ar gael ar y wefan http://www.info.doh.gov.uk/doh/finman.nsf/ManualDownload?OpenView.

(**2**) Dyroddwyd y safonau hyn o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru (2003) 119.

(a) caffael neu waredu unrhyw dir, nac unrhyw fuddiant mewn tir, nad yw yn cwympo o fewn paragraff (3)(b) o'r cyfarwyddyd hwn, ac sydd â'i werth uwchlaw £50,000; na

(b) caffael buddiant lesddaliadol pan fo naill ai —

(i) tymor y les yn llai na blwyddyn a'r rhent taladwy yn fwy na £50,000; neu

(ii) tymor y les heb fod yn llai na blwyddyn a phan fydd cynnyrch lluosi nifer y blynyddoedd yn y tymor â swm y rhent taladwy ym mlwyddyn gyntaf y tymor yn fwy na £250,000.

(4) Yn is-baragraff (3)(a) uchod ystyr "gwerth" yw'r gwerth pan waredir drwy werthu'r buddiant rhydd-ddaliol gyda meddiant gwag ar y farchnad agored.

(5) Yn is-baragraff (3)(b) uchod ystyr "y tymor" mewn cysylltiad â buddiant lesddaliadol a gaffaelwyd drwy aseiniad yw'r tymor sydd heb ddarfod.

**6.** Rhaid i'r Awdurdod arfer y pwerau a roddir iddo gan baragraff 5 yn unol ag —

(a) y gweithdrefnau a'r cyfarwyddiadau sydd mewn grym ar y pryd ac a ddyroddir gan Yr Adran Ystadau a Chyfleusterau Iechyd (1) ac eithrio i'r graddau y mae gweithdrefnau a chyfarwyddiadau o'r fath yn anghyson â darpariaethau'r Cyfarwyddiadau hyn neu na allant yn eu hanfod fod yn gymwys i'r Awdurdod; a

(b) Gorchmynion Ariannol Sefydlog yr Awdurdod.

**7.** Pan fo arfer unrhyw bŵer a roddir iddo gan baragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod —

(a) cwblhau unrhyw ddogfen o dan sêl, rhaid i'r Awdurdod gwblhau'r ddogfen honno, ar ran y Cynulliad, o dan ei sêl ei hun; neu

(b) cwblhau dogfen ac eithrio o dan sêl, rhaid i'r Awdurdod wneud trefniadau i swyddog o'r Awdurdod sydd wedi'i awdurdodi'n briodol at y diben hwnnw i lofnodi'r ddogfen dros yr Awdurdod ar ran y Cynulliad.

---

(**1**) *Gweler* Gwybodaeth a Hysbysrwydd Ystadau a Chyfleusterau yr Adran Iechyd a gyhoeddir yn hhhttp://www.dh.gov.uk/PolicyAndGuidance/OrganisationPolicy/EstatesAndFacilitiesManagement/EstatesAndFacilitiesArticle/fs/en?CONTENT_ID=4118956&chk=gz0VFG.

Pennod 2 – Swyddogaethau Penodol

**Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Chynllun Budd-daliadau Anaf y GIG ac â Chynllun Pensiwn y GIG**

**8.** Rhaid i'r Awdurdod arfer y swyddogaethau a bennir yn Atodlen 3 i'r Cyfarwyddiadau hyn mewn perthynas â Bwrsari'r GIG, Cynllun Budd-daliadau Anaf y GIG a Chynllun Pensiwn y GIG.

**Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Phrosesu Hawliadau Fferyllol a Gwasanaethau Fferyllol**

**9.** Rhaid i'r Awdurdod arfer y swyddogaethau a bennir yn Atodlen 2 i'r Cyfarwyddiadau hyn mewn perthynas â phrosesu hawliadau fferyllol a gwasanaethau fferyllol.

**Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol Perthnasol**

**10.** Rhaid i'r Awdurdod arfer y swyddogaethau a bennir yn Atodlen 3 i'r Cyfarwyddiadau hyn mewn perthynas â gwasanaethau deintyddol sylfaenol perthnasol.

**Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd**

**11.** Rhaid i'r Awdurdod arfer y swyddogaeth o weinyddu'r Cynllun Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd(**1**).

**Swyddogaethau eraill yr Awdurdod**

**12.** Caiff yr Awdurdod arfer swyddogaethau o dan —

(a) adran 23 o'r Ddeddf (sefydliadau gwirfoddol a chyrff eraill); a

(b) adran 26 o'r Ddeddf (cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan y Cynulliad).

# RHAN 3

## Dirymiadau

**Dirymiadau**

**13.** Dirymir y cyfarwyddiadau a bennir yn Atodlen 4.

---

(**1**) Sefydlwyd yn unol â rheoliad (EC) Rhif 631 2004.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

20 Mawrth 2007

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

# ATODLEN l

Cyfarwyddyd 8

## Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Chynllun Budd-daliadau Anaf y GIG ac â Chynllun Pensiwn y GIG

### Swyddogaethau mewn perthynas â Chynllun Budd-daliadau Anaf y GIG ac â Chynllun Pensiwn y GIG

**Dehongli**

**1.** Yn y Rhan hon —

ystyr "y Cynlluniau" ("*the Schemes*") yw "Cynllun Budd-daliadau Anaf y GIG" ("*the NHS Injury Benefits Scheme*") a Chynllun Pensiwn y GIG ("*the NHS Pension Scheme*").

**Swyddogaethau**

**2.** Arfer pob swyddogaeth a roddwyd i'r Cynulliad mewn perthynas â'r Cynlluniau ac eithrio'r swyddogaethau o wneud rheoliadau a rhoi cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cynlluniau.

**3.** Wrth arfer y swyddogaethau ym mharagraff 2 rhaid i'r Awdurdod geisio'r fath gyngor actiwaraidd a chyfreithiol priodol ac amserol ag a ystyrir yn angenrheidiol ganddo mewn cysylltiad ag —

(a) dehongli'r ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â gweinyddiaeth y Cynlluniau;

(b) cynnal achosion cyfreithiol (p'un ai a ydynt yn rhai sy'n cael eu dwyn ymlaen neu'n rhai a fygythir arno); ac

(c) ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Ombwdsmon Pensiynau.

**4.** Hysbysu'r Cynulliad ar unwaith o unrhyw fater (gan gynnwys achosion cyfreithiol sy'n cael eu dwyn ymlaen neu rai a fygythir arno), a eill, ym marn yr Awdurdod —

(a) herio neu fwrw amheuaeth ar y ddeddfwriaeth bresennol, ar y dehongliad ohoni neu ar ei chymhwyso; neu

(b) codi materion o bolisi ariannol neu bolisi cyhoeddus

mewn perthynas â'r Cynlluniau.

**5.** Pan fo'r Awdurdod yn hysbysu'r Cynulliad o fater yn unol â pharagraff 4, rhaid iddo —

(a) ymgynghori â'r Cynulliad ynglŷn â chyflawni'r mater; a

(b) sicrhau bod y Cynulliad yn ymwybodol o hynt y mater ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ynddo.

**6.** Darparu cyngor i'r Cynulliad ynglŷn a phob mater sy'n ymwneud â'r Cynlluniau gan gynnwys yn benodol, achosion cyfreithiol sy'n cael eu dwyn ymlaen neu rai a fygythir arno pan ddichon materion polisi cyhoeddus neu faterion ariannol (yn cynnwys materion actiwaraidd), godi ynddynt.

**7.** Darparu cyngor a chanllawiau i gyflogwyr sy'n gweithredu o fewn y Cynlluniau.

**8.** Rhoi cyngor i'r Cynulliad a gwneud argymhellion iddo ynglŷn â'i arfer o'i swyddogaethau o wneud rheoliadau a rhoi cyfarwyddiadau yn ymwneud â'r Cynlluniau.

**9.** Cadw a chynnal cofnodion o aelodau'r Cynlluniau.

**10.** Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cynlluniau.

# ATODLEN 2

Cyfarwyddyd 9

## Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Phrosesu Hawliadau Fferyllol a Gwasanaethau Fferyllol

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon —

(a) ystyr "Rheoliadau Ffioedd" ("*Charges Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(**1**);

(b) mae i'r termau a ganlyn yr ystyr a roddir iddynt yn rheoliad 2 (dehongli) o'r Rheoliadau Ffioedd —

(i) "swp-ddyroddiad" ("*batch issue*");

(ii) "ffurflen bresgripsiwn amlroddadwy Gymreig" ("*Welsh repeatable prescription form*");

(iii) "ffurflen bresgripsiwn Gymreig" ("*Welsh prescription form*");

(c) ystyr "Rheoliadau'r Gwasanaethau Fferyllol" ("*the Pharmaceutical Services Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992(**2**);

(ch) ystyr "y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl" ("*the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl 2007(**3**);

(d) ystyr "Pwyllgor Fferyllol Lleol" ("*Local Pharmaceutical Committee*") yw pwyllgor cydnabyddedig o dan adran 90(1) o'r Ddeddf (sy'n ymwneud â chydnabod Pwyllgorau Fferyllol Lleol);

(dd) ystyr "presgripsiynau" ("*prescriptions*") ffurflen bresgripsiwn Gymreig, neu ffurflen bresgripsiwn amlroddadwy Gymreig, ffurflen bresgripsiwn nad yw'n electronig neu ffurflen bresgripsiwn amlroddadwy nad yw'n electronig.

---

(**1**) O.S. 2007/121 (Cy.11).
(**2**) O.S. 1992/662 fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 2007/ 1104 (Cy.116).

**Swyddogaethau**

**2.** Archwilio, gwirio, prisio a storio, am gyfnod y bydd y Cynulliad yn penderfynu arno o dro i dro, swp-ddyroddiadau a phresgripsiynau, ar gyfer cyffuriau, moddion a chyfarpar rhestredig a gyflenwir fel rhan o wasanaethau fferyllol o dan y Ddeddf.

**3.** Yn ddarostyngedig i wneud unrhyw ddidyniadau yn unol ag adran 90 o'r Ddeddf, neu o reoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 121 o'r Ddeddf, gwneud y taliadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 18 o Reoliadau'r Gwasanaethau Fferyllol i fferyllwyr.

**4.** Talu didyniadau sydd wedi'u gwneud yn unol ag adran 90 o'r Ddeddf neu â rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 121 o'r Ddeddf i'r Pwyllgor Fferyllol Lleol.

**5.** Talu'r symiau sy'n ddyledus i fferyllwyr o dan drefniadau sydd wedi'u gwneud rhwng Byrddau Iechyd Lleol a fferyllwyr yn unol â pharagraffau 3(1) neu 4(1) o Gyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005.

**6.** Os ceir cais gan Fwrdd Iechyd Lleol i wneud hynny, adennill, yn unol â rheoliad 24(2) o Reoliadau'r Gwasanaethau Fferyllol, gordaliadau sydd wedi'u gwneud i fferyllydd neu feddyg.

**7.** Arfer swyddogaethau'r Cynulliad o dan y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl ac eithrio'r swyddogaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 11(1)(c) o'r Rheoliadau hynny.

**8.** Arfer swyddogaethau'r Cynulliad o dan rheoliad 9 o'r Rheoliadau Ffioedd (swyddogaethau mewn cysylltiad â thystysgrifau esemptiad rhag ffioedd presgripsiwn**.**

**9.**—(1) Gwneud y canlynol yn hysbys:-

(a) trefniadau ar gyfer hawlio peidio â chodi tâl neu adennill ffioedd o dan y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl; a

(b) trefniadau ar gyfer hawlio treuliau teithio sy'n daladwy o dan y Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl, ac eithrio treuliau teithio tramor y GIG o fewn ystyr rheoliad 3(2) o'r Rheoliadau hynny.

(2) Cyn i'r Awdurdod gyhoeddi unrhyw ddeunydd yn unol â'r paragraff hwn rhaid iddo fod wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad.

**10.** Cymryd ystyriaeth o argymhelliad Is-adran Gwrth-Dwyll a Gwasanaeth Rheoli Diogeledd yr Awdurdod, talu, o dan reoliad 18B(2) o Reoliadau'r Gwasanaethau Fferyllol y fath symiau, os oes rhai, ag y mae'r Awdurdod yn eu hystyried sy'n ddyledus i

fferyllwyr mewn perthynas â hawliadau sydd wedi'u gwneud o dan reoliad18B(1) o'r Rheoliadau hynny.

**11.** Cymeradwyo'r rhestrau o gyfarpar ac adweithyddion cemegol at ddibenion adran 80 o'r Ddeddf, a phenderfynu ar y prisiau ac ar ba sail y cyfrifir y taliadau ar gyfer cyfarpar ac adweithyddion cemegol o'r fath y mae'n arferol eu cyflenwi.

**12.** Llunio deunydd, yn unol â rheoliad 18 o Reoliadau'r Gwasanaethau Fferyllol, sydd i gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad (ac eithrio deunydd sydd i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn unol â pharagraff 9 uchod), ar gyfer ei gynnwys yn y Datganiad a enwir "y Tariff Cyffuriau" a chyhoeddi a dosbarthu'r datganiad hwnnw.

# ATODLEN 3

Cyfarwyddyd 10

## Swyddogaethau mewn perthynas â Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol Perthnasol

### Swyddogaethau'r Awdurdod mewn perthynas â Ffioedd Deintyddol

**Dehongli**

**1.** Yn y Rhan hon —

mae i "Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol" yr ystyr a roddir i "*relevant Local Health Board*" yn y Rheoliadau Ffioedd;

ystyr "Rheoliadau Ffioedd Deintyddol" ("*Dental Charges Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**1**); ac

ystyr "Rheoliadau Treiuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl" ("*Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 2007(**2**).

**Swyddogaethau**

**2.**—(1) Arfer swyddogaethau'r Cynulliad o dan y darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau Ffioedd Deintyddol —

(a) rheoliad 4(8) (penderfynu ar o fewn i ba Atodlen y dylai cyfarpar neu driniaeth gwympo);

(b) rheoliad 7(1)(b) (yn ei gwneud yn ofynnol cyflenwi tystiolaeth benodedig) a 7(4) (derbyn tystiolaeth ac eithrio tystiolaeth benodedig);

(c) rheoliad 8(4) (adennill ffioedd);

(ch) rheoliad 10(3) (cael hawliadau, caniatáu cyfnod ychwanegol o amser, gofyn tystiolaeth a phenderfynu ar hawliadau), 10(5) (derbyn hawliadau wedi'u gwneud ar ran rhywun arall) a 10(6) (peri i ad-daliad gael ei wneud); a

(d) rheoliad 11(1) a (3) (ystyried a dyfarnu ar beidio â chodi ffi neu ar swm y gostyngiad

(**1**) O.S. 2006/491.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116).

mewn ffi) ac Atodlen 6 (y dull o benderfynu ar y ffi am gael eitem yn lle un arall).

(2) Prosesu, asesu a monitro'r wybodaeth a geir yn unol â rheoliadau 4(8), 7(1)(b) a (4), 10(3), (5) a (6) ac 11(1) a (3) o'r Rheoliadau Ffioedd Deintyddol ac Atodlen 6 iddynt.

(3) Darparu adroddiadau amserol —

(a) i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol mewn perthynas â gwybodaeth a geir yn unol â rheoliadau 4(8), 7(1)(b), 10(3), (5) a (6) ac 11(1) a (3) o'r Rheoliadau Ffioedd Deintyddol, ac Atodlen 6 iddi, sy'n gosod allan yn benodol wybodaeth a eill fod, ym marn yr Awdurdod, yn dystiolaeth o dorri contract, o weithgaredd anghyfreithlon neu o afreoleidd-dra neu sydd mewn modd arall yn anarferol; a

(b) i'r Cynulliad mewn perthynas â gwybodaeth a geir yn unol â rheoliad 4(8) i'r Rheoliadau Ffioedd Deintyddol, sy'n gosod allan yn benodol wybodaeth a fyddai ym marn yr Awdurdod yn cynorthwyo'r Cynulliad mewn unrhyw adolygiad o eitemau a restrir neu nas rhestrir yn Atodlenni 1 i 4 i'r Rheoliadau hynny.

**3.**—(1) Arfer swyddogaethau'r Cynulliad o dan y darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau Ffioedd Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl —

(a) rheoliad 10(2) (penderfynu ar hawliad am ad-aliad);

(b) rheoliad 10(3) (sy'n caniatáu cyfnod hwy ar gyfer hawlio ad-daliad); a

(c) rheoliad 11(1)(a) (cyfrifo'r swm sy'n daladwy a rhoi hysbysiad o hynny) neu (c) (peri i ad-daliad gael ei wneud).

(2) Prosesu, asesu a monitro gwybodaeth a geir o dan reoliadau 11(2) a (3) o'r Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl mewn perthynas â hawliadau am ad-dalu ffioedd am gyfarpar deintyddol ac am driniaeth ddeintyddol.

(3) Darparu adroddiadau amserol mewn perthynas â gwybodaeth a geir yn unol â rheoliadau 11(2) a (3) a 12(1)(a) neu (c) i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol sy'n gosod allan yn benodol unrhyw wybodaeth a eill fod, ym marn yr Awdurdod, yn dystiolaeth o dorri contract, o weithgaredd anghyfreithlon neu o afreoleidd-dra neu sydd mewn modd arall yn anghyfreithlon.

**4.** Pan fo person yn methu â thalu unrhyw swm y cyfeirir ato yn adran 141(1)(a) neu (b) o'r Ddeddf)(cosbau), rhaid i'r Awdurdod baratoi a chyflwyno hysbysiad cosb, cyfrifo a phennu ffi gosb a gordal yn unol â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd

Gwladol (Ffi Gosb) (Cymru) 2001(**1**) a rhaid iddo gymryd camau gorfodi er mwyn adennill y ffioedd cosb a'r gordaliadau perthnasol fel dyledion sifil.

---

(**1**) O.S. 2001/1300.

# ATODLEN 4

Cyfarwyddyd 13

## Cyfarwyddiadau a ddirymir

**1.** Cyfarwyddiadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) 2005 dyddiedig 1 Hydref 2005.

**2.** Cyfarwyddiadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) dyddiedig 31 Mawrth 2006.

**3.** Cyfarwyddiadau Hysbysu Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) a Chydweithio ag Ef (Cymru) 2006.